**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 26 Chwefror 2019**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd |
| **2** | DATGANIAD CYSYLLTIAD | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2019 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **5** | POLISÏAU CYFLOGAETH | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet* **–**<br><br>*(a) yn cymeradwyo'r polisïau cyflogaeth fel y nodwyd yn yr adroddiad ar gyfer mabwysiadu yn y Cyngor, a*<br><br>*(b) chadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (atodiad i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **6** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*<br><br>*(a) yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, a*<br><br>*(b) chyhoeddi datganiad i alw ar Lywodraethau Cymru a'r DU i gydnabod anawsterau darparu gwasanaethau statudol yn yr hinsawdd ariannol bresennol a gofyn iddynt weithredu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu cyllido fel eu bod yn gynaliadwy ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.* |
| **7** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 26 Chwefror 2019**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **8** | PENODI CONTRACTWYR I FFRAMWAITH ADEILADU GOGLEDD CYMRU 2 | ***PENDERFYNWYD*** *penodi'r contractwyr a nodir ym mharagraff 3 yr adroddiad ar gyfer Fframwaith Contractwyr Adeiladau Cyhoeddus ac Ysgolion Gogledd Cymru.* |